Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-LG-0841-18

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

15 Ionawr 2019

Annwyl Mike.

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Tachwedd a oedd yn cynnwys adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018. Mae'n dda gennyf ddarparu fy ymateb ffurfiol i'r adroddiad.

**Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiynau drafft o gyllidebau carbon a Rheoliadau cysylltiedig yn y dyfodol a dylid hefyd ymgynghori arnynt gyda rhanddeiliaid.**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn adlewyrchu bwriad y Cynulliad Cenedlaethol o ran craffu ar yr holl reoliadau newid yn yr hinsawdd ac nid yw'n mynnu ein bod yn cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar bob mater sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, a hynny ym mhob sector allyriadau ac ar lefel Cymru gyfan.

Yn 2017, gwnaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd ddau Gais am Dystiolaeth a roddodd gyfle i randdeiliaid ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y fframwaith cyfrifyddu carbon, yn ogystal â lefel ein dwy gyllideb garbon gyntaf a'n targedau interim. Cefnogodd Llywodraeth Cymru'r Ceisiadau hyn am Dystiolaeth a chynaliodd ddigwyddiadau ymgynghori ar y cyd â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yng ngogledd a de Cymru. Cyhoeddom benderfyniad y Cabinet i dderbyn cyngor y Pwyllgor ym mis Mehefin 2018, sawl mis cyn cyflwyno'r Rheoliadau drafft yn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd cyfleoedd tebyg i randdeiliaid gyfrannu pan fyddwn yn gosod cyllidebau carbon yn y dyfodol.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu fersiwn drafft o'r Cynllun Cyflawni ar gyfer ei chyllideb garbon gyntaf cyn gynted ag y bo modd cyn iddo gael ei gyhoeddi. Ar gyfer cyllidebau carbon yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu fersiwn drafft i'r Pwyllgor ac ymgynghori â rhanddeiliaid ar y fersiwn drafft cyn gynted ag y bo modd cyn iddo gael ei gyhoeddi.**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Er nad yw deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol ac nad yw'n arfer ar lefel Llywodraeth y DU, rwyf wedi cytuno i anfon y Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf at y Pwyllgor cyn iddo gael ei gyhoeddi. Oherwydd yr amserlenni byr a phrosesau llywodraethu, ni allwn ei rannu ynghynt. O ran cyhoeddiadau yn y dyfodol, mater i'r Llywodraeth fydd penderfynu ar hynny ar yr adeg, oherwydd bydd angen cyflawni pob cynllun newydd yn ystod blwyddyn gyntaf y Llywodraeth newydd.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei tharged 2050 ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad cyn pennu ei thrydedd gyllideb garbon.**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rwyf wedi gofyn i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, ynghyd â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, i ystyried ein targedau tymor hir yng ngoleuni Cytundeb Paris ac Adroddiad Arbennig diweddar y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd. Gwnaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd Gais am Dystiolaeth i lywio ei gyngor a gofynnodd yn benodol sut dylai ei gyngor adlewyrchu'r gwahanol amgylchiadau ym mhedair cenedl y DU.

Rydym yn disgwyl cael cyngor y Pwyllgor ar ein targedau tymor hir fis Ebrill y flwyddyn nesaf. Byddwn yn ystyried y cyngor hwn a'i oblygiadau i'n fframwaith statudol, gan gynnwys y targed 2050, ac yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad cyn pennu'r drydedd gyllideb garbon. Byddwn yn ystyried y ffynonellau tystiolaeth a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd.

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU sicrhau bod ei adroddiadau ar gynnydd i leihau allyriadau wedi'u dadansoddi yn ôl meysydd polisi datganoledig a heb eu datganoli. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gael ei dwyn i gyfrif am effaith uniongyrchol ei pholisïau.**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae llawer o allyriadau Cymru'n digwydd mewn meysydd sydd heb eu datganoli eto, felly mae gan Lywodraeth y DU rôl arwyddocaol iawn i'w chwarae yn ein helpu ni i gyrraedd targedau Cymru. Roedd allyriadau o feysydd heb eu datganoli, fel Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE, yn cyfrif am bron i 60% o allyriadau Cymru yn 2016. Serch hynny mae llawer o feysydd, fel amaethyddiaeth, adeiladau a choedwigaeth, lle gallwn weithredu ac mae'n rhaid i ni weithredu.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cynhyrchu adroddiad cyn diwedd 2020 ar y cynnydd tuag at fodloni dwy gyllideb garbon gyntaf Cymru, a chyrraedd y targedau interim a tharged 2050. Ar ben hynny, mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn mynnu bod y Pwyllgor, bob blwyddyn, yn cyflwyno adroddiad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a deddfwrfeydd eraill y DU ar y cynnydd tuag at fodloni cyllidebau carbon y DU a chyrraedd targed 2050 y DU. Byddaf yn gofyn i'r Pwyllgor ddarparu asesiad o'r cynnydd mewn meysydd polisi datganoledig a heb eu datganoli yn un o'r adroddiadau hyn neu'r ddau ohonynt.

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad cynhwysfawr o gost ac effaith ddisgwyliedig pob ymyriad sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni cyntaf.**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn adlewyrchu bwriad y Cynulliad Cenedlaethol o ran y cynigion a'r polisïau ar gyfer bodloni cyllidebau carbon ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol ein bod yn cyhoeddi asesiad o gost ac effaith pob ymyriad. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa yn yr Alban ac ar lefel y DU. Disgwylir i adrannau ystyried cost ac effaith yr holl ymyriadau fel rhan o'r broses datblygu polisi. Hefyd, byddwn yn asesu cyfraniad y Cynllun at y nodau llesiant cenedlaethol a byddwn yn cyhoeddi arfarniad o gynaliadwyedd ochr yn ochr â'r Cynllun.

**Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU cyn prynu a defnyddio credydau gwrthbwyso. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi unrhyw gyngor y mae'n ei gael gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU ar faterion o'r fath.**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn canolbwyntio ar gamau gweithredu domestig yn gyntaf i leihau allyriadau, ac nid ydym yn bwriadu defnyddio credydau gwrthbwyso i fodloni'r gyllideb garbon gyntaf. Yn ei gyngor ym mis Rhagfyr 2017, argymhellodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd y dylai Llywodraeth Cymru geisio ei gyngor ar rôl credydau gwrthbwyso yn bodloni'r cyllidebau carbon.[1] Er nad yw'r Ddeddf yn mynnu hynny, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion Datgarboneiddio wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor. Byddaf yn cyhoeddi unrhyw gyngor ar y mater hwn. Roedd cyngor y Pwyllgor yn canolbwyntio ar eu defnydd ac nid oedd yn trafod ceisio cyngor cyn prynu credydau gwrthbwyso, ac nid wyf yn credu bod yn rhaid gwneud hynny. Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniadau ynghylch prynu credydau gwrthbwyso gael eu llywio gan ein dyletswydd i sicrhau gwerth am arian.

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran datblygu trefniadau olynol yn lle ETS yr UE.**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Dan delerau'r Cytundeb Ymadael, bydd cyfranogiad y DU yn ETS yr UE yn parhau tan ddiwedd y Cyfnod Gweithredu, sy'n cyd-daro â diwedd Cam III ETS yr UE. Mae'r Datganiad Gwleidyddol yn nodi bod y DU a'r UE wedi cytuno i ystyried opsiynau ar gyfer cydweithredu ar brisio carbon, gan gynnwys opsiwn i gysylltu system masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr cenedlaethol yn y DU ag ETS yr UE. Bydd manylion y trefniadau hyn yn fater i'r trafodaethau sydd i ddod ar y Bartneriaeth Economaidd yn y Dyfodol.

---

[1] https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/CCC-Adeiladu-economi-carbon-isel-yng-Nghymru-Pennu-targedau-carbon-Cymru.pdf t.60

Rydym yn parhau i weithio gyda chenhedloedd eraill y DU i ystyried amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys parhau i gymryd rhan yn ETS yr UE yng Ngham IV, ETS y DU (cysylltiedig neu annibynnol) neu dreth allyriadau carbon. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y cyd yn 2019 ar ein dull ar gyfer prisio carbon yn y dyfodol.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs